

ofgem Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Helpu busnesau bach i gael y gorau o'r farchnad ynni

Y llynedd cwblhaodd y rheoleiddiwr ynni, Ofgem, archwiliad i farchnad cyflenwi ynni Prydain a oedd yn cynnwys edrych yn fanwl ar sector busnesau bach y farchnad a'r materion sy'n effeithio arno.

Mae busnesau bach yn amrywio'n fawr o ran eu maint ac yn eu harbenigedd o ran prynu ynni.



Nododd yr archwiliad fod y busnesau lleiaf yn brwydro i ymgysylltu â'r farchnad ynni. Felly, mae Ofgem wedi cyflwyno rheolau newydd i roi gwell diogelwch iddynt. Mae'r mwyafrif o fusnesau bach ym Mhrydain yn fusnesau micro ac mae diwygiadau Ofgem **ond** yn gymwys yn uniongyrchol i'r cwmnïau hyn.

O dan y rheolau newydd diffinnir busnes micro fel cwmni*:

- sy'n defnyddio llai na 200,000 kWh o nwy y flwyddyn, neu
- sy'n defnyddio llai na 55,000 kWh o drydan y flwyddyn, neu
- sydd â llai na deg cyflogai (neu sydd gyfwerth ag amser llawn) a throsiant blynyddol neu fantolen flynyddol nad yw'n fwy na €2m.

Dim ond cwrdd ag un o'r meini prawf hyn sy'n rhaid i fusnes ei wneud er mwyn bod yn gymwys i gael ei ddisgrifio fel cwsmer busnes micro.

*Fel y pennir yn erthygl 2(1) Gorchymyn y Darparwyr Nwy a Thrydan wedi'u Rheoleiddio (Cynllun Gwneud Iawn) 2008 (O.S.2008/2268)

## Trefniadau presennol

Mae faint o wybodaeth mae cwsmeriaid busnesau micro yn ei dderbyn am delerau ac amodau contractau'n amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar y cyflenwr a sut mae'n marchnata ei fargeinion. Canfu'r archwiliad nad yw llawer o fusnesau micro yn derbyn telerau ac amodau eu contract yn ysgrifenedig, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gysylltiedig â chyfnodau hysbysu.

Fel arfer mae cyfnodau hysbysu'n dechrau rhwng tri a chwe mis cyn diwedd contract. Os na fydd cwsmeriaid yn dweud wrth eu cyflenwr eu bod am newid o fewn y cyfnod hwn, efallai na fyddant yn gallu gadael y cyflenwr ar ddiwedd tymor eu contract. Gan nad oes gan rai cwsmeriaid gopïau caled o'r telerau ac amodau, mae nifer sylweddol ohonynt yn anymwybodol o'r cyfnodau hyn ac maent wedi'u 'trosglwyddo' i gontractau newydd heb yn wybod iddynt.

## Rheolau newydd

Mae Ofgem wedi cyflwyno rheolau newydd ar ddarparu telerau ac amodau'r contract, ac ar drosglwyddo contract.

Cyn trefnu contract newydd rhaid i gyflenwr egluro'r telerau ac amodau allweddol i'r cwsmer, a'i gwneud yn glir fod y contract yn rhwymol. Mae hyn yn gymwys yn yr un modd i gontractau y cytunir arnynt dros y ffôn neu'n bersonol.

O fewn deng niwrnod o gytuno ar gontract, neu ymestyn contract sy'n bodoli eisoes, (neu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol) dylai'r cwsmer dderbyn copïau ysgrifenedig mewn iaith syml o'r telerau ac amodau llawn a datganiad o delerau adnewyddu (os yw'r contract yn un o hyd penodol).

Tua 60 diwrnod calendr (ond ddim mwy na 120 diwrnod calendr) cyn diwedd y cyfnod tymor penodol, rhaid i gyflenwyr anfon datganiad at gwsmeriaid o'r telerau adnewyddu a manylion y telerau ac amodau allweddol sy'n gymwys os:

- na fydd y cwsmer yn cymryd camau ac y trosglwyddir y contract
- bydd y cwsmer yn atal ei gontract rhag cael ei drosglwyddo.

Ar ôl cael datganiad o delerau adnewyddu bydd gan y cwsmer gyfnod hysbysu o tua 30 diwrnod calendr i gysylltu â'r cyflenwr os yw am drosglwyddo neu negodi bargen newydd. Os bydd cyflenwr yn cynnig bargeinion newydd i gwsmer rhaid i o leiaf un o'r rheini fod yn ysgrifenedig ac yn ddilys tan ddiwedd y cyfnod hysbysu.

Os na fydd y cwsmer yn cysylltu â'i gyflenwr yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod hysbysu caiff ei gontract ei drosglwyddo'n awtomatig am gyfnod hyd at 12 mis (cyn belled â bod y cyflenwr eisoes wedi rhoi rhywfaint o wybodaeth i'r cwsmer, fel datganiad o delerau adnewyddu).

Bellach, gall cwsmeriaid sydd am osgoi cael eu trosglwyddo'n awtomatig i gyfnod tymor penodol ychwanegol atal hyn rhag digwydd drwy ysgrifennu at y cyflenwr unrhyw bryd o'r adeg pan wnaethant gytuno ar gontract tymor penodol tan ddiwedd y cyfnod hysbysu. Fodd bynnag, os yw cwsmer am derfynu neu ganslo'r contract rhaid iddo wneud hynny yn unol â thelerau'r contract.



## Pryd y daw'r rheolau newydd i rym?

Daw'r rheolau newydd i rym o 18 Ionawr 2010 a byddant yn gymwys i bob contract newydd a drefnir ar y dyddiad hwn neu wedi hynny. Ni fydd yr amodau'n gymwys yn ôl-weithredol, sy'n golygu ar gyfer cwsmeriaid sydd â chontractau sy'n bodoli eisoes, y bydd y rheolau newydd ond yn dechrau bod yn gymwys pan yr ymestynnir y contract ar y dyddiad hwnnw, neu wedi hynny.

## Cymorth arall i fusnesau micro

### Broceriaid

Mae Cyfryngwyr Trydydd Parti, fel broceriaid contractau ynni yn cyflawni rôl ddefnyddiol wrth helpu busnesau micro i gymharu bargeinion ynni. Fodd bynnag, dangosodd archwiliad Ofgem fod rhai busnesau'n ansicr am ba gyflenwyr a gynrychiolir gan gyfryngwyr trydydd parti a sut y cânt eu hariannu.

Nid oes gan Ofgem bwerau uniongyrchol i reoleiddio broceriaid ond mae wedi argymell eu bod yn cymryd camau i wella hyder cwsmeriaid. Er enghraifft, mae Ofgem wedi cynnig y dylai broceriaid hyrwyddo codau ymddygiad sy'n bodoli eisoes neu rai newydd, gan geisio cael aelodaeth eang. Yn arbennig, dylai fod yn ofynnol i froceriaid achrededig egluro sut y cânt eu hariannu a pha gyflenwyr a gwmpesir gan eu gwasanaethau cyn bod cwsmer yn llofnodi contract. Awgrymodd Ofgem i'r rhai hynny sy'n sefydlu codau ymddygiad broceriaid neu'n gweithredu rhai sy'n bodoli eisoes i gael cyngor anffurfiol gan y Swyddfa Masnachu Teg er mwyn eu helpu i ddatblygu eu codau ymddygiad.

## Gwella argaeledd i wybodaeth am dariffau

Mae cyfraddau newid cyflenwr ymhlith cwsmeriaid busnesau micro yn llai na'r rhai hynny ar gyfer cwsmeriaid domestig. Mae hyn yn rhannol oherwydd mwy o ddefnydd o gontractau tymor hwy. Ond caiff ei ddwysáu gan sawl busnes micro yn ei chael yn anodd asesu bargeinion ynni gan fod gan y sector busnes lai o wasanaethau cymharu prisiau na'r sector domestig. Felly mae Ofgem yn gweithio gyda Llais Defnyddwyr gyda'r nod o ehangu cynllun achredu safleoedd newid cyflenwyr y corff gwarchod i gynnwys gwefannau cymharu annomestig.



# Cwestiynau ac atebion

## → Pa wybodaeth fydd angen i'm cwmni ei darparu i brofi ei fod yn fusnes micro?

Os nad oes gan eich cyflenwr y wybodaeth lawn am eich busnes efallai y gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth am nifer y cyflogeion (yn gyfwerth â llawn amser), y trosiant a'r defnydd o ynni.

## → Penderfynodd fy nghyflenwr nad yw fy musnes yn gymwys i fod yn fusnes micro, ond credaf ei fod. Beth gallaf i ei wneud?

I ddechrau, dylech fynd at eich cyflenwr gyda'r dystiolaeth ategol eich bod yn gymwys, megis nifer y cyflogeion a throsiant blynyddol neu ddefnydd o ynni.

## → Mae fy nghontract wedi'i drosglwyddo am fwy na blwyddyn, er bod y rheolau newydd yn weithredol ers 18 Ionawr 2010. Sut mae hyn yn bosibl?

Os oeddech mewn contract a drefnwyd cyn 18 Ionawr 2010, bydd telerau ac amodau'r contract hwnnw yn amodi cyfnod o amser pan ddylech ddweud wrth y cyflenwr am eich bwriad i derfynu'r contract. Os na wnaethoch ddweud wrth eich cyflenwr eich bod am derfynu eich contract yn ystod y cyfnod penodol (yn unol â thelerau'r contract), mae'n bosibl fod eich cyflenwr wedi gweithredu ei hawl dan gontract i drosglwyddo eich contract. Er mwyn manteisio ar y mesurau diogelu newydd gallech ystyried trefnu contract newydd cyn gynted â phosibl.

Astudiaeth achos Trefnodd cwsmer gontract tair blynedd cyn 18 Ionawr 2010 ac mae'r contract yn cynnwys darpariaeth trosglwyddo o ddwy flynedd.

OS NA FYDD Y CWSMER yn dweud wrth ei gyflenwr ei fod am ganslo yn ystod y cyfnod hysbysu ac yn unol â thelerau ei gontract presennol, gellir trosglwyddo ei gontract am ddwy flynedd arall ar ddiwedd y cyfnod tymor penodol o dair blynedd. Fodd bynnag, bydd unrhyw gyfnodau trosglwyddo dilynol (ar ôl y cyfnod trosglwyddo o ddwy flynedd) yn amodol ar y mesurau diogelu newydd ac felly yn gyfyngedig i 12 mis.

OS BYDD Y CWSMER YN CYSYLLTU â'i gyflenwr (yn ystod y cyfnod hysbysu ac yn unol â thelerau ei gontract presennol) i ganslo'r contract - NI chaiff ei gontract ei drosglwyddo. Yn hytrach, bydd yn trefnu contract busnes micro newydd. Bydd unrhyw drosglwyddiadau sy'n dilyn diwedd tymor penodol y contract newydd yn amodol ar y mesurau diogelu newydd ac felly, am gyfnod hyd at 12 mis (gan roi cyfle i'r cwsmer ymestyn neu drefnu contract busnes micro eto).

# Cwestiynau ac atebion

## → Beth y dylwn edrych amdano wrth drefnu contractau newydd?

Dylech:

- ystyried pa gontract ynni sy'n addas i anghenion eich busnes, siopa o gwmpas a chymharu cynigion cyflenwyr;
- sicrhau eich bod yn deall agweddau allweddol eich contract;
- darllen Telerau ac Amodau llawn eich contract pan fyddwch yn eu cael a'r Datganiad o Delerau Adnewyddu. Cadwch hwy er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol;
- os bydd unrhyw anghydfodau gyda'ch cyflenwr, cadwch gopïau o bob gohebiaeth.

## → A fydd fy musnes yn elwa o reolau newydd Ofgem os byddaf yn prynu fy ynni drwy frocer?

Os byddwch yn prynu eich ynni drwy frocer ynni, dylech elwa o'r rheolau newydd o hyd, gan mai cyfrifoldeb eich cyflenwr ydyw yn y pen draw i ddarparu holl wybodaeth angenrheidiol y contract i chi a sicrhau y dilynir y rheolau ar drosglwyddo contractau yn gywir.

## → Rwyf ar gontract evergreen (un heb gyfnod penodol). Sut y caf fy effeithio gan y mesurau diogelu newydd hyn?

Os byddwch yn trefnu contract evergreen ar ôl 18 Ionawr 2010, bydd yn ofynnol i'ch cyflenwr gydymffurfio â'r broses orfodol o ddarparu gwybodaeth, fel telerau ac amodau sy'n berthnasol i'r math hwn o gontract. Oherwydd natur contractau evergreen, nid yw'r mesurau diogelu sy'n gysylltiedig â throsglwyddo yn berthnasol.

Ceir **rhagor o wybodaeth** am faterion ynni sy'n effeithio ar gwsmeriaid busnesau micro ar wefan Llais Defnyddwyr, yr eiriolwr defnyddwyr: www.consumerfocus.org.uk

### Cwynion

Mae'n ofynnol i bob cwmni ynni trwyddedig ymdrin â chwynion gan gwsmeriaid mewn modd rhagweithiol. Os oes gennych gŵyn yn ymwneud â chwmni ynni dylech ddilyn ei broses cwyno gyhoeddedig a ddylai fod ar gael ar ei wefan ac ar gais. Os byddwch yn wynebu unrhyw anawsterau yna gall Cyswllt Defnyddwyr, yr asiantaeth cyngor defnyddwyr genedlaethol, gynnig canllawiau pellach ar sut i fynd â'r mater yn ei flaen.

Ffôn: 08454 040506

www.cyswlltdefnyddwyr.gov.uk